# Briff polisi: Diweddariad ar ofal dementia siaradwyr Cymraeg

## Crynodeb

- **Ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud** mewn perthynas â mwyafrif argymhellion adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ac Alzheimer's Society Cymru a gyhoeddwyd yn 2018. **Mae'r momentwm a oedd unwaith yn bodoli wedi arafu.**
- Dyma'r meysydd y dylid eu blaenoriaethu er mwyn ailgynnau'r momentwm:
  - Sicrhau bod y gwerthusiad o Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia yn **casglu profiadau cleifion a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg**
  - **Ailsefydlu is-grŵp dementia a'r Gymraeg** ar fyrder
  - Sicrhau bod cynllun gweithredu nesaf Cymru ar gyfer dementia yn **gosod y Gymraeg fel elfen greiddiol**
  - Dylai Llywodraeth Cymru arwain ar lunio **cynllun cyflawni penodol ar gyfer datblygu llwybrau gofal dementia cyfrwng Cymraeg**, gan flaenoriaethu meysydd fel casglu data, cynyddu ymwybyddiaeth iaith, asesiadau ac adnoddau, a hyfforddiant ieithyddol
  - Er mwyn gyrru'r holl argymhellion uchod dylid **creu swydd benodol ar gyfer arwain ar y Gymraeg a dementia.**

### Iaith yn fater o angen, nid o ddewis

Os nad yw gofal ar gael yn Gymraeg, mae diffyg yn y gofal hwnnw. Mae darparu gwasanaethau drwy iaith gyntaf pobl sy'n byw â dementia yn angen clinigol sylfaenol, ac mae cydnabyddiaeth i hyn ym mholisïau Llywodraeth Cymru.

### Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Mae deddfwriaeth a pholisïau sydd eisoes yn eu lle sy'n creu amodau ffafriol ar gyfer darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl sy'n byw â dementia. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy na geiriau: Cynllun 5 Mlynedd, 2022–27
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gyda'i gilydd mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau o blaid y Gymraeg mewn gofal yn bwerus.

### Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ac Alzheimer's Society Cymru

Yn 2018 fe gyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ac Alzheimer's Society Cymru adroddiad ar 'Ofal Dementia Siaradwyr Cymraeg'. Cynhaliwyd yr ymchwil oherwydd ein bod wedi clywed degau o straeon, profiadau a thystiolaeth gan bobl wedi'u heffeithio gan

ddementia yn methu â chael darpariaeth gofal yn Gymraeg. Roedd yn amlwg nad eithriad mo'r un o'r achosion unigol hyn, a bod enghreifftiau o ddarpariaeth annigonol ar draws y wlad.

Cyflwynodd yr adroddiad ddarlun cymysg o'r gofal a dderbyniai siaradwyr Cymraeg oedd yn byw â dementia. Er bod enghreifftiau lleol o arfer da ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol ar lefel strategol, dangosodd yr ymchwil bod llawer o fylchau yn y gofal ar lawr gwlad, a phrin iawn oedd yr enghreifftiau o holl anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu.

Er bod polisïau cenedlaethol yn amlygu'r ffaith bod derbyn gofal yn eich mamiaith yn fater o angen clinigol ac nid yn fater o ddewis, dangosodd yr ymchwil nad yw'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o hyn wedi treiddio ar lawr gwlad. Amlygodd y gwaith ymchwil enghreifftiau o effaith andwyol diffyg gwasanaethau Cymraeg ar bobl, ac ar raddfa Cymru gyfan, nad yw gofal dementia i siaradwyr Cymraeg yn ddigonol.

Amlygodd yr adroddiad dair prif her o safbwynt darparu gofal dementia yn Gymraeg:

1. **Hyfforddi a datblygu'r gweithlu:** Er y gwelwyd rhai enghreifftiau o arfer da, gwelwyd hefyd ddiffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth am effaith dementia ar siaradwyr Cymraeg ymysg y gweithlu. Roedd diffyg hyder staff yn eu sgiliau Cymraeg yn her sylweddol, yn ogystal â'r heriau recriwtio ehangach.
2. **Asesiadau ac adnoddau addas:** amlygodd yr ymchwil anghysondeb yn y profion diagnostig a'r adnoddau asesu dementia sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio yn Gymraeg.
3. **Arwain, comisiynu a chynllunio gwasanaethau:** dangosodd yr ymchwil bod diffyg casglu a defnyddio data digonol am sgiliau ieithyddol staff a phobl sydd yn cael diagnosis o dementia yn llesteirio cynllunio gwasanaethau dementia Cymraeg.

Gwnaeth yr adroddiad 15 argymhelliad er mwyn cychwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn.

## Sefydlu Grŵp Dementia a'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22

Tua'r un cyfnod â chyhoeddi'r adroddiad uchod fe ddatblygwyd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia. Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau ym mamiaith pobl, a bod darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn fater o angen clinigol i siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia.

Yn dilyn cyhoeddi'r cynllun gweithredu fe sefydlwyd Is-grŵp y Gymraeg a Dementia. Roedd yr is-grŵp yn eistedd oddi dan y grŵp ehangach oedd yn gyfrifol am oruchwylio Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia (DOIIG). Y bwriad oedd y byddai'r is-grŵp yn dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i gynghori a rhannu gwybodaeth ac i gydlynu ymdrechion i weithredu argymhellion adroddiad y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru o fewn cyd-destun Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia.

## Chwe blynedd yn ddiweddarach: a oes cynnydd wedi bod?

Mae'r momentwm oedd yn bodoli yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a sefydlu'r is-grŵp bellach wedi arafu'n sylweddol. Nid yw'r is-grŵp wedi cwrdd ers dwy flynedd, ac nid oes ymgyrch genedlaethol benodol ar gyfer cydlynu ymdrechion i gryfhau darpariaeth gofal dementia drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ffaith nad yw'r is-grŵp wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf yn ei gwneud yn anoddach llunio barn glir ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

O'r ychydig wybodaeth sydd yn bodoli ymddengys mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i

wneud mewn perthynas â mwyafrif yr argymhellion. Yn 2020 cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae nifer o ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau ymchwil y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru ddwy flynedd ynghynt. Er bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn derbyn gofal yn Gymraeg, noda'r adroddiad y gwelwyd pobl sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi lle nad oedd unrhyw staff a oedd yn siarad Cymraeg nac unrhyw weithgareddau nac adnoddau Cymraeg ar eu cyfer. Adroddir bod llai na hanner y cartrefi gofal yn darparu gwasanaethau dwyieithog ac nad oedd llawer o gartrefi yn nodi a oedd pobl yn siarad Cymraeg yno.

Â chydnabod peryglon cyffredinoli'n ormodol, a hefyd o ddiystyru ymdrechion sy'n sicr o fod yn digwydd ar lefelau mwy lleol, ymddengys mai camau cymharol fychan sydd wedi'u cymryd o safbwynt gwella gofal dementia drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel sy'n wir mewn perthynas â'r sector gofal ac iechyd yn ehangach, yr her yw symud o sefyllfa lle mae'r 'cynnig rhagweithiol' yn cael ei dderbyn a'i drafod fel cysyniad polisi, i sefyllfa lle mae'n cael effaith ymarferol ar y ffordd y caiff gofal ei gynllunio, ei ddarparu a'i ariannu.

### Rhai datblygiadau cadarnhaol

O osod gofal dementia o fewn cyd-destun polisi ehangach iechyd a gofal, rhaid cydnabod sawl cam strategol a statudol arwyddocaol dros y blynyddoedd diweddar.

Ers cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru, mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau yn rhoi dyletswyddau penodol ar sefydliadau o ran cyflenwi gwasanaethau, y ffyrdd maent yn gweithredu, a'r ystyriaeth sydd yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth iddynt lunio polisïau. Yn benodol yn hyn o beth rhaid ystyried pwysigrwydd safon 110 y mae gofyn i bob bwrdd iechyd gydymffurfio ag ef. Golyga hyn bod gofyn iddynt gyhoeddi cynlluniau bob 5 mlynedd yn nodi i ba raddau y gallent gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg ac, yn hanfodol, y camau y bwriadant eu cymryd i gynyddu eu gallu i wneud hyn.

Yn 2021 cyhoeddwyd gwerthusiad o'r cynllun 'Mwy na Geiriau', sef cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal. Yn dilyn y gwerthusiad fe gyhoeddodd y Llywodraeth gynllun 'Mwy na geiriau' newydd ar gyfer cyfnod 2022-27. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer helaeth o gamau gweithredu ynghylch materion fel hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu, codi ymwybyddiaeth am y cynnig rhagweithiol, casglu data, a chynllunio darpariaeth. Mae'r camau gweithredu yn aml yn ategu gofynion safonau'r Gymraeg, a gyda'i gilydd yn gosod cyfeiriad clir i'r sector iechyd a gofal yng Nghymru.

Yn ogystal â'r sylw a roddir i'r gweithlu iechyd yng nghyfundrefn safonau'r Gymraeg ac yng nghynllun 'Mwy na Geiriau', cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth y Gweithlu Iechyd a luniwyd ar y cyd rhwng Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cydnabyddiaeth yn y strategaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel angen clinigol ac mae nifer o gamau gweithredu yn ymwneud â datblygu'r gweithlu i fedru cynnig gofal yn Gymraeg.

Yn 2021 fe gyhoeddodd Gwelliant Cymru ddogfen Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru, sy'n nodi'r meysydd allweddol ar gyfer darparu gwell gofal dementia yng Nghymru. Mae'r safonau yn cydnabod pwysigrwydd darparu yn y Gymraeg er mwyn bodloni anghenion ieithyddol unigolion.

### Y camau nesaf: ailgynnau'r momentwm

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer

Dementia 2018–22. Mae'n amserol felly i bwyso a mesur y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt darparu gofal dementia i siaradwyr Cymraeg yn ystod oes y cynllun. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu dementia nesaf yn ystyried y Gymraeg yn llawn, ac yn adeiladu ar y cynlluniau ehangach sydd eisoes yn bodoli er mwyn cryfhau darpariaeth Gymraeg o fewn gwasanaethau iechyd a gofal.

Er mwyn cyflawni hyn argymhellwn fod angen ystyried y camau gweithredu isod:

1. Sicrhau bod **gwerthusiad o Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia yn casglu profiadau cleifion a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg** ac yn ystyried y dystiolaeth hon yng nghyd-destun ymrwymiadau'r cynllun o safbwynt y Gymraeg.
2. **Ail sefydlu'r is-grŵp dementia a'r Gymraeg ar fyrder.** Yn y tymor byr mae angen i'r grŵp gefnogi'r gwerthusiad uchod, ac i chwarae rhan allweddol yn cynghori Llywodraeth Cymru wrth lunio'r cynllun gweithredu nesaf.
3. **Sicrhau bod cynllun gweithredu nesaf Cymru ar gyfer dementia yn gosod y Gymraeg fel rhan greiddiol o'r cynllun drwyddi draw.** Dylai'r cynllun ystyried argymhellion adroddiad 2018, a hefyd adeiladu ar gynllun Mwy na Geiriau a gofynion safonau'r Gymraeg.
4. **Yn dilyn cyhoeddi cynllun gweithredu newydd ar gyfer dementia, dylid ail-edrych ar gyfansoddiad, cylch gorchwyl, a threfniadau adrodd ac atebolrwydd yr is-grŵp dementia a'r Gymraeg.** Mae angen sicrhau bod yr is-grŵp yn fforwm effeithiol ar gyfer craffu a dwyn partneriaid i gyfrif.
5. Mewn partneriaeth â'r is-grŵp dementia a'r Gymraeg, **dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun cyflawni penodol ar gyfer cryfhau gofal dementia drwy gyfrwng y Gymraeg**. Bydd y cynllun cyflawni yn adeiladu ar gynlluniau ehangach ym maes dementia, gofal ac iechyd (gan gynnwys cynllun Mwy na Geiriau, gofynion safonau'r Gymraeg, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) gan **osod camau gweithredu penodol ar gyfer datblygu llwybrau gofal dementia cyfrwng Cymraeg.**
   Dylai'r cynllun cyflawni ystyried yn ofalus argymhellion adroddiadau blaenorol, gan flaenoriaethu'r camau gweithredu sy'n debygol o gael effaith wirioneddol ar ofal i siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia. Fel man cychwyn awgrymwn y dylai'r cynllun ystyried y canlynol:
   - Prosesau casglu data am ddewis ag anghenion ieithyddol cleifion, a sut y defnyddir y wybodaeth er mwyn cynllunio gofal
   - Prosesau casglu data am sgiliau Cymraeg y gweithlu, a sut y defnyddir y wybodaeth er mwyn cynllunio gofal
   - Ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu gofal dementia
   - Sicrhau cywirdeb diagnostig yr asesiadau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu eu defnydd gan glinigwyr
   - Datblygu fforymau cenedlaethol a lleol i rannu adnoddau a phrofiadau darparu gofal Cymraeg a gwirfoddoli yn Gymraeg
6. Er mwyn gyrru'r holl argymhellion uchod, credwn y dylid **creu swydd benodol ar gyfer arwain ar y Gymraeg a dementia.**